Cyngor Sir Ceredigion **Gofal Cymdeithasol**

# Gwasanaethau i Oedolion

**…yn gofalu i wneud gwahaniaeth**

# Print Bras neu fformatau eraill ar gael drwy ofyn amdanynt

**ffoniwch**

☎ 01545 574000



**neu Ebostiwch**
**cyswllt-socservs@ceredigion.gov.uk**

## Oriau Swyddfa’r Porth Gofal

**Dydd Llun – Dydd Iau: 8.45 y.b. – 5.00 y.p.**

**Dydd Gwener: 8.45 y.b. – 4.30 y.p.**

Gellir gweld gwybodaeth ynglŷn â gwasanaethau a ddarparir gan Gyngor Sir Ceredigion ar ein gwefan:
**www.ceredigion.gov.uk**
a/neu Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda:
**www.pdt-tr.wales.nhs.uk**

Adolygwyd Rhagfyr 2019

# Gwasanaethau i Oedolion

## Gwasanaethau yng Ngheredigion i Oedolion â phobl â Phroblemau Iechyd Meddwl

Mae Gwasanaethau Cymdeithasol Ceredigion yn cynnig amrywiol wasanaethau i oedolion 18 oed a hŷn.

Ceisiwn sicrhau ein bod yn trin pawb yn onest, yn deg ac yn urddasol er mwyn darparu'r gofal cymdeithasol gorau i bobl sy'n byw yng Ngheredigion.

Gallwn helpu:

- Pobl Hŷn
- Pobl Hŷn sydd â phroblemau Iechyd Meddwl
- Pobl sydd ag Anabledd Corfforol
- Pobl sydd ag Anabledd Dysgu
- Pobl sydd â phroblemau Iechyd Meddwl
- Pobl sydd wedi colli eu Golwg a'u/neu'u Clyw
- Pobl sy'n camddefnyddio Cyffuriau neu Alcohol
- Pobl sy'n dioddef HIV/AIDS
- Pobl sydd ag Afiechydon Tymor Hir
- Pobl sy'n cael eu Rhyddhau o'r Ysbyty
- Pobl y mae arnynt angen Cefnogaeth o ran Tai
- Gofalwyr Anffurfiol

Rydym yn darparu gwybodaeth a chyngor am wasanaethau cymorth sydd ar gael o ystod eang o ffynonellau.
Mae gennym gyfeiriadur gwybodaeth ar-lein ar gyfer unigolion a allai fod ag anghenion gofal a chymorth. www.dewis.wales. Mae'r wefan hon yn darparu gwybodaeth ledled Ceredigion yn ogystal â gweddill Cymru.

Mae gan bawb yr hawl i ofyn i ni am help a byddwn yn ymdrechu i gynorthwyo, naill ai trwy ddiwallu'ch anghenion ein hunain neu trwy eich cyfeirio at rywun arall a all, gallai hyn fod y 3ydd sector

Anelwn at helpu pobl i gynnal eu hannibyniaeth neu leihau’r perygl i’w hannibyniaeth lle bo hynny’n bosib. Mae’r gwasanaethau’n cynnwys:

- Gwasanaethau Galluogi - (gan alluogi defnyddwyr y gwasanaeth i gynnal neu gynyddu eu hannibyniaeth yn eu bywydau beunyddiol)
- Gofal Cartref
- Gwasanaeth Prydau yn y Cartref
- Canolfan Ddydd/Gofal Dydd
- Cymhorthion, Cyfarpar ac Addasiadau
- Help i adennill y sgiliau y mae arnoch eu hangen i ofalu amdanoch eich hunan
- Gweithgareddau Cymdeithasol
- Gofal Seibiant/Tymor Byr
- Cyngor a Chefnogaeth
- Help gyda phroblemau sy’n ymwneud â thenantiaethau
- Taliadau Uniongyrchol

Os nad yw’n bosib i rywun fyw’n annibynnol gellir cynnig Gofal Preswyl neu Nyrsio.

## Cwestiynau Cyffredin

### 1. Sut mae cysylltu â’r Adran ynglŷn â gwasanaeth y mae ei angen arnaf?

Bydd angen i chi, neu rywun sy’n galw ar eich rhan (ffrind, rhywun o’r teulu, gofalwr ayb), gyda’ch caniatâd chi, ffonio ein Porth Gofal ar:

**01545 574000**

Bydd y Swyddogion Cyswllt yn cymryd gwybodaeth fanwl gennych. Ymhlith y manylion bydd eich enw, eich cyfeiriad, eich rhif ffôn, eich dyddiad geni, eich meddyg teulu, eich Tarddiad Ethnig, eich Crefydd, materion iechyd a’r gweithgareddau sy’n rhoi trafferth i chi, (gweler y manylion llawn yn y Daflen Wybodaeth ‘Sut i fanteisio ar ein gwasanaethau’).

Os ydych am ddefnyddio ein Gwasanaethau Iechyd Meddwl trafodwch hyn gyda’ch Meddyg Teulu a gall wneud atgyfeiriad.

**Os byddwch yn cysylltu â’r Adran ar ran rhywun arall, mae’n bwysig eu bod hwythau’n gwybod hynny, a dylech gael eu caniatâd yn llawn cyn ein ffonio ni. Bydd Porth Gofal yn gofyn i chi gadarnhau hyn.**

## 2. Beth fydd yn digwydd wedyn?

Unwaith y byddwn wedi cael yr wybodaeth, ac os yw'n ymddangos y byddai asesiad o fudd i chi, caiff eich cais ei drosglwyddo i'r Tîm perthnasol i'w asesu, er mwyn penderfynu pa mor gymwys ydych chi ar gyfer Gwasanaethau'r Adran sydd wedi eu seilio ar y Perygl i'ch Annibyniaeth chi (gweler y manylion llawn yn llyfryn y 'Meini Prawf).

Fodd bynnag, os penderfynir nad ydych chi'n gymwys i gael gwasanaeth o gwbl, gallwn roi gwybodaeth i chi am grwpiau gwirfoddol a allai eich helpu chi.

## 3. Pryd bydd rhywun yn fy ngweld i?

Oherwydd bod llawer iawn o alw am ein gwasanaethau ni allwn weld pawb yn syth ar ôl y Cyswllt Cychwynnol.

Fodd bynnag, mae'n bwysig inni sicrhau ein bod ni'n gweld y bobl sydd a'r angen mwyaf yn gyntaf. Gan ddibynnu ar yr adnoddau, a'r galw am y gwasanaethau, ceisiwn drefnu i asesu eich anghenion cyn gynted ag y bo modd.

## 4. Beth os bydd pethau'n gwaethygu imi pan wyf yn aros i rywun fy ngweld ?

Os bydd eich cyflwr/eich anghenion yn newid, neu os bu i chi angofio son am rywbeth yn y Cyswllt Cychwynnol cyntaf, ffoniwch Porth Gofal i'w hysbysu nhw ar:

**01545 574000**

I gysylltu â'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl ffoniwch Porth Gofal neu siaradwch â'ch Meddyg Teulu eto.

## 5. Pwy fydd yn gweithio gyda mi?

Gan ddibynnu pa gymorth sydd ei angen arnoch bydd gweithiwr yn cael ei ddynodi ar eich cyfer. Gallai fod yn Weithiwr Cymdeithasol, yn Weithiwr Arbenigol, Cynorthwyydd Gwaith Cymdeithasol, Asesydd Gofal, yn Therapydd Galwedigaethol neu'n Nyrs Seiciatrig Cymunedol. Bydd yn cysylltu â chi i drefnu amser a lle cyfleus i ymweld â chi, i asesu eich anghenion (gweler y manylion llawn yn y llyfryn 'Paratoi ar gyfer Asesu').

Yn dilyn yr asesiad byddwch chi a'r gweithiwr yn llunio Cynllun Gofal i nodi sut y caiff eich anghenion cymwys eu cyflawni. Cewch gopi o hwnnw. Bydd yn cynnwys yr holl wybodaeth y bydd ei hangen arnoch am y gwasanaeth(au) a'r canlyniadau y disgwyliwn eu gweld yn sgil y gwasanaeth a ddarperir.

Os byddwch yn anghytuno ynglyn â'r canlyniadau y daethpwyd iddynt o ran y flaenoriaeth a gawsoch chi o ran cael gwasanaeth neu os bydd gennych bryderon am hynny, bydd gennych hawl apelio (gweler y manylion yn llawn yn llyfryn y 'Drefn Apelio').

Bydd eich Cynllun Gofal yn cynnwys dyddiad Adolygu eich gwasanaethau. Gallai hyn ddigwydd dri, chwech neu ddeuddeg mis ar ôl i'ch gofal chi ddechrau. Fodd bynnag, os byddwch yn teimlo bod eich anghenion wedi newid cyn dyddiad yr adolygiad, cewch ofyn am ailasesu eich

anghenion (gweler y manylion yn llawn yn llyfryn y 'Drefn Adolygu').

## 6. A fyddaf yn gorfod talu am wasanaeth?

Bydd tâl am rai gwasanaethau, ond bydd y taliadau hyn yn dibynnu ar eich amgylchiadau ariannol. Bydd eich gweithiwr yn trafod hyn gyda chi pan fydd yn ymweld â chi yn eich cartref.

## 7. A ydych chi'n Ofalydd?

Os ydych chi'n darparu, neu'n bwriadu darparu, gofal yn ddi-dâl, i rywun arall yn rheolaidd, hyd yn oed os nad yw'n byw gyda chi, yna rydych chi'n Ofalydd.

Gallwch ofyn am 'Asesiad Gofalydd' trwy ffonio'r Porth Gofal ar:

**01545 574000**

(Byddant yn gofyn cwestiynau tebyg i'r rhai a geir yng Nghwestiwn 1. yn y daflen hon). (Gweler y llyfryn gwybodaeth 'Hawliau'r Gofalwyr yn y Broses Asesu').

**Mae Cyngor Sir Ceredigion yn llwyr gefnogi egwyddor cydraddoldeb ac mae'n cydnabod pwysigrwydd cynnig cyfleoedd manteisio teg ac mae'n hyrwyddo cyfle cyfartal i'r holl ofalwyr a defnyddwyr gwasanaeth.**

## Gwasanaeth Eiriolaeth

Mae Gwasanaeth Eiriolaeth ar gael a lle bo hynny'n bosib, byddwn yn trefnu i rywun eich cynorthwyo i gyflwyno eich barn wrth i chi ymdrin â ni os nad yw'n bosib i chi wneud hynny eich hun ac os nad oes gennych deulu neu ffrindiau i'ch helpu.

**Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol Ceredigion (CIPA)**
Gall y gwasanaeth hwn eich cynorthwyo chi (neu eich gofalwr) os ydych chi dros 18 oed, yn byw yng Ngheredigion a'ch bod yn derbyn asesiad neu adolygiad ar hyn o bryd o'ch anghenion gofal a chymorth neu fod gennych bryder o ran diogelu.

**0800 206 1387**

Bydd **Eiriolaeth Gorllewin Cymru'n** darparu Gwasanaeth Eiriolaeth Annibynnol o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl ar gyfer pobl yn y gymuned ac ar gyfer cleifion anffurfiol yn Ward Morlais, Ysbyty Glangwilli, Caerfyrddin.

**01437 762935**

www.advocacywestwales.org.uk

admin@advocacywestwales.org.uk

Mae **TGP Cymru** yn darparu help i blant a phobl ifanc er mwyn sicrhau y caiff eu hawliau eu parchu a'u lleisiau eu

clywed. Gallant ddarparu gwybodaeth, eiriolaeth, cynrychiolaeth, cyngor a chefnogaeth.

**0808 1682599**

**01545 571865**

midandwestwales@tgpcymru.org.uk

## Rhannu Gwybodaeth a Chyfrinachedd

Bydd unrhyw wybodaeth y byddwch yn ei rhoi i ni yn cael ei chadw'n gyfrinachol. Ni fyddwn yn datgelu eich gwybodaeth i unrhyw un nad ydynt yn ymwneud â'ch gofal heb eich caniatâd (oni bai bod yn rhaid i ni wneud hynny yn unol â'r gyfraith neu os ceir amgylchiadau arbennig, fel eich diogelwch a/neu ddiogelwch eraill).

## Argyfyngau

Os bydd angen help arnoch ar frys y tu allan i oriau agor y Porth Gofal (fel y nodwyd tu fewn clawr y daflen hon), cysylltwch â'n Tîm Argyfwng Tu Allan i Oriau Swyddfa ar:

**0300 4563554**

## Cyflwyniadau/Cwynion/Sylwadau

Os nad ydych yn fodlon ag unrhyw rai o'n gwasanaethau, neu â'r ffordd yr ydych wedi cael eich trin, dylech drafod hyn gyda Rheolwr y Tîm y mae gennych gyswllt ag ef yn gyntaf. Mawr obeithiwn y bydd modd datrys y broblem ar yr adeg hon.

Os nad ydych yn fodlon o hyd fodd bynnag, gallwch fynd â'r mater hwn ymhellach trwy wneud cwyn ffurfiol, gan bod gan Gofal Cymdeithasol Ceredigion weithdrefn gwyno.

Os ydych yn credu ein bod wedi gwneud rhywbeth yn dda, gallwch ddweud hynny wrthym hefyd.

Gofynnwch i'r **Gofal Cymdeithasol** am daflen 'A ydym yn llygad ein lle? A oes gennych unrhyw Sylwadau, Cwynion neu Ganmoliaeth?'

Mae taflenni eraill yn rhoi manylion am y gwahanol wasanaethau a gynigir gan Gofal Cymdeithasol Ceredigion ar gael drwy ofyn amdanynt o'r Porth Gofal. Os ydych am ragor o wybodaeth, ffoniwch ar:

**01545 574000**

Byddem yn croesawu unrhyw sylwadau sydd gennych ynghylch cynnwys a chynllun y daflen hon, yn ogystal a'r gwasanaeth yr ydych wedi ei dderbyn. Mae'ch safbwyntiau chi yn bwysig er mwyn sicrhau ein bod yn gallu monitro a gwella'r ansawdd yn ôl yr angen. A fyddech gystal â mynd ati i lenwi'r canlynol:

Enw: …………………………………………………………......………..

Cyfeiriad: ……………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………

Rhif Ffôn: …………………………  Dyddiad: ……………………..…

Cafwyd taflen gan: ……………………………………………..………..

Fy nghanmoliaeth neu fy nghwyn:  …………………………………..

…………………………………………………………………………………

…………………………………………………………………………………

…………………………………………………………………………………

…………………………………………………………………………………

**(A fyddech gystal â pharhau ar dudalen ar wahân os bydd angen mwy o le arnoch)**



Dylech anfon y dudalen hon at:

Porth Gofal
Canolfan Rheidol
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
SY23 3UE

**Diolch am eich sylwadau**